Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

# CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Ebrill 2024 |
| **Amser:** | 12:30 – 13:15 |
| **Fformat:** | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb |
| **Lleoliad:** | Ystafell Fideogynadledda |

## Cofnodion

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Alun Davies AS
Rhianon Passmore AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Delyth Jewell AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-23-02 (**DOGFEN 1**)

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Roedd y rhain yn cynnwys:

- *Ymgysylltu Aelodau â gweithgor Argyfwng Hinsawdd BIMR*

Cadarnhad y byddai gwahoddiadau i gymryd rhan yn y gweithgor hwn yn cael eu hehangu ac y byddai Clerc y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn sicrhau bod gan y Senedd o leiaf un cynrychiolydd mewn unrhyw sesiynau yn y dyfodol.

- *Cynnwys Aelodau o Ganghennau Datganoledig y DU mewn cyfarfodydd/sesiynau briffio gydag Uchel Gomisiynwyr Prydain mewn cynadleddau CPC*

Cafodd hyn ei drafod ag Ysgrifenyddiaeth BIMR a nodwyd y byddai'r Gangen yn gwneud cais ysgrifenedig i Ddirprwyaeth y Senedd yn CPC eleni yn Sydney gael ei gwahodd i unrhyw gyfarfodydd a drefnwyd gydag Uchel Gomisiynydd Prydain.

- Cysylltiad y Senedd â Rhwydweithiau ehangach y Gymanwlad.

Cafwyd eglurhad ar gyfranogiad y Senedd (a'r opsiynau i gyfranogi) o nifer o rwydweithiau, gan gynnwys y **Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus y Gymanwlad** (CAPAC); **CSPOC** – Cynhadledd Llefarwyr y Gymanwlad, a **SOCATT** — Cymdeithas y Clercod wrth y Bwrdd.

4. **ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

2023

- *Dirprwyaeth o Gynulliad Deddfwriaethol Maharashtra (India)*
  *23 Tachwedd*

  Cyfarfu Alun Davies AS â'r ddirprwyaeth hon a oedd yn ymweld â'r Senedd fel rhan o raglen drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

- Cyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR
  Rhithwir
  4 Rhagfyr / 29 Ionawr

  Aeth ein Haelodau i'r ddau gyfarfod hyn o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad a oedd yn ymdrin â materion a oedd yn cynnwys Fforwm Byd-eang Reykjavik yn ogystal â chynlluniau ar gyfer cynhadledd Seneddwragedd y Gymwlad ym Malta a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
  Diolchodd y Cadeirydd i Rhianon Passmore AS am ei hadroddiad ar ei phresenoldeb yn Fforwm Byd-eang Reykjavik; cafodd copïau o'r adroddiad eu dosbarthu.

- Cynhadledd Rithwir CPA 2023 ar y 4ydd Chwyldro Diwydiannol:
  *"Deallusrwydd artiffisial, Twyllwybodaeth a'r Senedd: Sicrhau Uniondeb ein Democratiaeth Ddigidol"*
  4-6 Rhagfyr 2023

  Dywedodd sawl Aelod eu bod wedi gallu gwylio dewis o sesiynau o'r gynhadledd rithwir. Nodwyd bod cynnwys y gynhadledd o ansawdd uchel ond bod cynadleddau rhithwir fel y rhain yn cyfyngu ar effeithiolrwydd yr ymgysylltu.

2024

- *Cwrs Hyfforddiant Arsylwi Etholiadau CPA BIMR*
  *Rhithwir*
  *22 - 23 Ionawr*

Roedd y Dirprwy Lywydd wedi gallu mynd i’r cwrs Hyfforddiant Arsylwyr Etholiadau hwn. Nododd y Cadeirydd fod gan y Gangen bellach garfan dda o Aelodau sydd wedi cael yr hyfforddiant ac felly'n gymwys i gymryd rhan mewn Cyfleoedd Cenadaethau Arsylwi Etholiadau yn y dyfodol yn ein Rhanbarth BIM.

- *Rhaglen Clercod Ffiji*
  *21-22 Chwefror*

  Roedd y Gangen yn falch o fod wedi hwyluso rhaglen ddeuddydd ar gyfer uwch-glercod gwadd o Senedd Ffiji ym mis Chwefror, dan arweiniad Pwyllgor Cyllid y Senedd. Ar ran y Gangen, diolchodd y Cadeirydd i Peredur Owen Griffiths AS a'i dîm clercio am roi o’u hamser ac am eu cyfraniad i’r rhaglen hon, a gafodd dderbyniad da.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Malta*
  *7-8 Mawrth*

  Cynrychiolwyd Cangen y Senedd gan Rhianon Passmore AS a Janet Finch Saunders AS yn y Gynhadledd CWP Ranbarthol hon, a gynhaliwyd gan Gangen Malta.

  Roedd adroddiad swyddogol yn cael ei baratoi gan yr Ysgrifenyddiaeth Ranbarthol. Dyma rai o’r trafodaethau allweddol yn y gynhadledd:

  - Ymagweddau diwylliannol at fenywod mewn gwleidyddiaeth a gweithio gyda dynion i newid y naratif.
  - Gwella cynrychiolaeth menywod a rôl pleidiau gwleidyddol o ran ymrwymo i fwy o gynrychiolwyr benywaidd.
  - Y Bwlch Cyflog Rhywedd
  - Effaith Cyfryngau Cymdeithasol a mathau eraill o gamdriniaeth ar fenywod mewn gwleidyddiaeth.

  Adroddodd Rhianon Passmore AS yn ôl ar y gynhadledd, fel y gwnaeth Elin
  Sutton, a oedd wedi cefnogi dirprwyaeth y Senedd, ac a roddodd fanylion pellach am system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol Malta.

- *72ain Seminar San Steffan*
  *Llundain / Senedd*
  *11-15 Mawrth*

  Cafodd y Gangen ei chynrychioli yn Seminar San Steffan gan Carolyn Thomas AS. Y seminar yw rhaglen flynyddol flaenllaw CPA UK ac fe'i hanelir at Aelodau newydd neu newydd eu hethol a Chlercod sy'n datblygu.

  Eleni hefyd daeth y Seminar i'r Senedd am ddiwrnod a nododd y Gangen mor braf oedd croesawu rhyw 30 o Aelodau a Chlercod a oedd yn cynrychioli ystod o ddeddfwrfeydd datganoledig a llai, gan gynnwys o Awstralia, Canada, y Caribî a nifer o ein Rhanbarth BIM ein hunain; gan gynnwys St Helena, Ynysoedd y Sianel ac Ynysoedd Falkland.

  Roedd y Cadeirydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen, ynghyd â'r Dirprwy Lywydd, Huw Irranca-Davies AS, ac uwch-swyddogion y Senedd.

  Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gynadleddwyr Seminar San Steffan ac roedd trafodaethau ar y gweill â CPA UK i weld a allai rhaglen Senedd gael ei chynnwys yn fwy rheolaidd fel rhan o Seminarau San Steffan yn y dyfodol.

- *Seminar Seneddol Canada*
  *Ottawa*
  *18 -22 Mawrth*

  Cafodd Luke Fletcher AS ei ddewis i fynd i'r Seminar hwn ond, yn anffodus, bu'n rhaid iddo dynnu'n ôl oherwydd busnes y Senedd.

## 5. BLAENGYNLLUNIO

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *Cynhadledd BIMR*
  *St Helena, 18-25 Mai*
  *(Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Hybrid ar 20 Mai)*

Roedd paratoadau wedi datblygu'n dda ar gyfer Cynhadledd BIMR eleni a fyddai, am y tro cyntaf erioed, yn cael ei chynnal yn Jamestown, St Helena. Byddai Natasha Asghar AS yn cynrychioli ein Cangen a dymunodd y Cadeirydd yn dda iddi.

Yn ogystal â phresenoldeb Natasha, nodwyd y byddai modd cymryd rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o bell. Byddai'r Cadeirydd yn bresennol yn rhithwir a gwahoddwyd Aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith i ymuno ag ef ar gyfer hyn.

- *Cynhadledd Deallusrwydd Artiffisial a Ffugiadau Dwfn*  
  *Singapôr*  
  *18-20 Mehefin*

  Trefnwyd y gynhadledd hon gan Ysgrifenyddiaeth y CPA mewn partneriaeth ag Uchel Gomisiwn Prydain yn Singapôr. Rhoddwyd hysbysiad i'r Aelodau y diwrnod blaenorol yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ac achosion busnes i gael eu cyflwyno erbyn 29 Ebrill.

- *Ymweliad gan Ddirprwyaeth dan Arweinyddiaeth y Llefarydd o Gynulliad Cenedlaethol Québec*  
  *11 Mehefin*

  Byddai'r Llefarydd Natalie Roy yn arwain dirprwyaeth seneddol i'r Senedd am raglen diwrnod llawn. Byddai cyfleoedd i sawl Aelod o'r Gangen gyfarfod â'r ddirprwyaeth fel rhan o'u rhaglen ymweld.

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad*  
  *Wellington, Seland Newydd*  
  *2-6 Medi*

  Roedd dyddiadau Senedd Ieuenctid y Gymanwlad eleni wedi'u cadarnhau, gyda chydweithwyr yn Senedd Seland Newydd eisoes yn gweithio i ddatblygu rhaglen y Gynhadledd. Roedd y Senedd yn gobeithio gallu enwebu hyd at ddau berson ifanc a byddai, unwaith eto, yn gweithio gyda thîm Senedd Ieuenctid Cymru i ddewis ein henwebeion.

- *67ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad,*  
  *Sydney, De Cymru Newydd*  
  *1-6 Tachwedd*

Ni chafwyd rhagor o newyddion am y gynhadledd hon ond disgwyliwyd gwahoddiad swyddogol erbyn diwedd mis Mai.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

- *Cynnig i sefydlu Rhwydwaith LHDTC+ BIMR*

Yn ein cyfarfod diwethaf, mynegodd Adam Price AS ddiddordeb mewn datblygu rhwydwaith LHDTC+ o fewn y CPA, i adeiladu ar fomentwm y trafodaethau ynghylch Hawliau Dynol yn y CPC yn Ghana.
Roedd y Gangen yn gefnogol i'r gwaith hwn a, chan fod Cangen yr Alban o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi cynnig y pwnc hwn hefyd, byddai gwaith LHDTC+ yng nghyd-destun BIMR yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rhanbarthol yn St Helena.

- *Cangen y Senedd i gynnal Cynhadledd Flynyddol BIMR 2025.*

Roedd y Senedd wedi nodi ar y pryd ei ddiddordeb mewn cynnal Cynhadledd Ranbarthol BIM yn ystod y Senedd hon a nodwyd bod 2025 yn gyfle inni wneud hyn.

Ailadroddodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r gynhadledd gael ei chynnal gan y Gangen. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Llywydd, fel Llywydd y Gangen, ac at Manon Antoniazzi, fel Ysgrifennydd y Gangen, i nodi ein dymuniad i gynnal y gynhadledd y flwyddyn nesaf ac i ofyn am i'r cyllid a'r adnoddau fod ar gael i hwyluso hyn.

7. **DYDDIAD CYFARFOD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfod Pwyllgor Gwaith y Gangen – Gorffennaf

**DIWEDD**